



YN ÔL TRUED ALFRED RUSSEL WALLACE

Pan fyddwch yn dilyn y teithiau cerdded hyn, gofalwch eich bod wedi paratoi yn addas trwy ddilyn y Côd Cefn Gwlad a fydd yn eich helpu i ymweld yn ddiogel a chadw ein hamgylchedd a'n cymunedau mewn cof. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.naturalresources.wales/countrysidecode



**CALON DDRAMATIG
CYMRU**

Castell-nedd Port Talbot

dramaticheart.wales

LLWYBR ALFRED RUSSEL WALLACE

Man cychwyn: Castell Castell-nedd, Golwg y Castell, Canol Tref Castell-nedd

Hyd: 5-6 milltir (taith fer), 10-11 milltir (taith hir)

Amser: 2 awr (taith fer), 3-4 awr (taith hir)

Parcio: Maes parcio aml-lawr y ceir mynediad iddo o Rodfa Tywysog Cymru

Bwyd a Lluniaeth: Mae amrywiaeth o lefydd bwyta ac yfed yng Nghanol Tref Castell-nedd ynghyd ag ystod eang o siopau. Mae toiledau cyhoeddus yn yr Orsaf Fysiau yng Ngerddi Victoria.


Alfred Russel Wallace oedd un o naturiaethwyr pennaf Prydain a oedd yn cael ei adnabod fel fforiwr, casglwr, awdur, athronydd, anthropolegydd ac ysbrydegydd o fri. Esblygiad oedd ei ddarganfyddiad enwocaf; ac aeth ati i gyhoeddi


damcaniaeth esblygiad trwy ddeholiad naturiol ar y cyd â Charles Darwin yn 1858.

Ond ble dechreuodd hyn i gyd? Er iddo dreulio pum mlynedd yn unig yng Nghastell-nedd, roedd yn adeg bwysig ac yn drobwynt ym mywyd Wallace.

Yn ddiweddarach, dywedodd Wallace mai ei gyfnod yng Nghastell-nedd a arweiniodd at ddatblygu ei ddiddordeb mewn natur a'r byd naturiol a'i wybodaeth amdanynt. Mae Llwybr Alfred Russel Wallace yn caniatáu i chi ddilyn yn yr ôl traed enwog hyn a gweld y dirwedd a fu'n ysbrydoliaeth iddo.

Dywedodd Wallace ei hun, *'Ni allaf feddwl am unrhyw gwm mewn unrhyw ardal o'r un maint sy'n cynnwys cynifer o olygfeydd hardd a deniadol, a chynifer o nodweddion arbennig diddorol â Bro Nedd.'*





Y LLWYBR

Gan ddechrau yng Ngolwg y Castell, treuliwch ychydig o funudau yn crwydro tir Castell Castell-nedd **1**.

Pan fyddwch yn barod i adael, trowch i'r dde i Stryd y Castell. Wrth i'r ffordd ddechrau gwro i'r chwith, trowch i'r dde i'r ale sy'n eich arwain at gwrth bach ac eglwys. Yma, gallwch weld Sefydliad y Mecanyddion **2**, adeilad sy'n dal i gael ei ddefnyddio heddiw. Ewch ymlaen i ben y ffordd gan fynd heibio i Neuadd y Dref **3**, adeilad lle bu Alfred Russel Wallace yn rhoi nifer o ddarlithoedd gwyddonol.

Wrth ymuno â Stryd Newydd **4**, oedwch am funud i edrych o'ch cwmpas. Yn y stryd hon roedd llefy Wallace pan ddychwelodd am yr eildro i Gastell-nedd. Croeswch o Stryd Newydd i Heol Croft a throi i'r dde a dechrau anelu i ffwrdd o Gastell-nedd. Trowch i'r chwith o dan y rheilffordd i Stryd y Bont a chroesi Afon Nedd (gan gymryd y llwybr ar y dde). Trowch i'r chwith yma a dilyn llwybr halio Camlas Tenant ar hyd y gamlas. Dilynwch y llwybr halio nes cyrraedd croesffordd, trowch i'r dde i Heol y Fynachlog ac yn fuan iawn fe welwch Fynachlog Nedd **5** mae'r adfeilion sylweddol hyn yn dal ymhlith y rhai mwyaf trawiadol yng Nghymru.

Ewch ymlaen ar hyd Heol y Fynachlog nes cyrraedd y gylchfan, trowch i'r dde a chroesi ar unwaith. Bydd llwybr cul wrth ochr y Modurdy yn mynd â chi heibio Gwaith Dur Mynachlog Nedd **6**, dilynwch y lôn ymhellach i'r goedwig ac ar hyd yr afon i'r fan lle dysgodd Alfred Russel Wallace ei hun i nofio.

O'r fan hon, gallwch naill ai barhau i archwilio'r goedwig neu droi yn ôl ar hyd yr un llwybr. Pan gyrhaeddwch Stryd y Bont ar eich taith yn ôl, gallwch ddewis cerdded i gyfeiriad Castell-nedd i orffen y daith, neu ddilyn y llwybr hir ar hyd Camlas Tenant a dychwelyd i Gastell-nedd ar hyd Camlas Nedd. Os dewiswch fynd ymlaen, dilynwch llwybr halio'r gamlas, gan igam-ogamu ar draws ffordd osgoi fwy newydd yr A465 nes cyrraedd adeilad y Llog Brydeinig Frenhinol. Trowch i'r dde ac yna i'r chwith a dilyn llwybr Camlas Nedd wrth ochr y Ganolfan Nwy Calor yr holl ffordd yn ôl i Gastell-nedd. Wrth gerdded, cadwch eich llygaid ar agor am Eglwys Illtud Sant **8** yr ochr arall i'r gamlas.

MANNAU DIDDOROL

1 Castell Castell-nedd

Roedd castell Castell-nedd yn un o'r cestyll Normanaidd llai yn Arglwyddiaeth Morgannwg. Dewiswyd y lleoliad fel man strategol i amddiffyn croesfan yr afon. Y brif elfen sydd wedi goroesi yw'r porthdy mawr â'i ddau dŵr ar ochr orllewinol y castell, gweddillion o'r cyfnod mwyaf diweddar yn hanes y castell sy'n cwmpasu 250 mlynedd. Ymosodwyd yn rheolaidd ar y castell gwreiddiol, a gafodd ei adeiladu yn y 12fed ganrif gan Robert, Iarll Caerloyw, ac fe'i hailadeiladwyd ar ddechrau'r 13eg ganrif. Credir i ddeunyddiau o'r castell gwreiddiol gael eu defnyddio i adeiladu Mynachlog Nedd gerllaw. Difrodwyd y castell gan ymosodiadau pellach a chafodd ei ailadeiladu unwaith eto yn y 14eg ganrif.

2 Sefydliad y Mecanyddion

Ffurfiwyd Sefydliad y Mecanyddion yng Nghastell-nedd yn 1843 i roi addysg mewn pynciau sylfaenol a thechnegol i weithwyr. Dechreuodd y Sefydliad gyda llyfrgell ac amrywiol adnoddau megis mapiau a globau, a chynhaliwyd yr holl ddsbarthiadau yn Neuadd y Dref. Fodd bynnag, oherwydd ei boblogrwydd, daeth y Sefydliad gwreiddiol yn rhy fach ac roedd angen adeilad newydd.

Un o gyd-sylfaenwyr Sefydliad y Mecanyddion oedd Mr William Jevons o Waith Haearn Cwmgwrach ac ef oedd y prif ysgogwr wrth greu adeilad pwrpasol. Gofynnodd Sefydliad y Mecanyddion i Wallace ddylunio'r adeilad newydd a derbyniwyd ei gynlluniau. Roedd yr adeilad yn cynnwys llyfrgell, ystafell ddarllen ac ystafell ddsbarth. Cafodd ei gwblhau'n fuan am £550 a'i agor yma ar Faes yr Eglwys yn 1847.

3 Neuadd y Dref Castell-nedd

Yn ystod ei ddau gyfnod yng Nghastell-nedd, bu Wallace yn rhoi darlithoedd yn Neuadd y Dref a Sefydliad y Mecanyddion ar nos Wener. Roedd Wallace yn addysgu Daeareg, Daearyddiaeth, Seryddiaeth a Gwyddoniaeth. I ddechrau, roedd Wallace yn amharod i ddarlithio, ond gyda rhywfaint o berswâd gan Mr William Jevons, a oedd yn berchen ar Waith Haearn Fenallt Cwmgwrach, ildiodd a dechreuodd addysgu sylfeini gwyddoniaeth, gan gynnwys ffiseg. Mae Neuadd y Dref yn adeilad rhestredig gradd dau ar yr un stryd â Sefydliad y Mecanyddion.

4 Llety ar Stryd Newydd

Bu farw William, brawd Wallace yn sydyn yn 1845, gan orfodi Wallace i ddychwelyd i Gastell-nedd i derfynu materion busnes William. Parhaodd Wallace â'r busnes tirlfesur ac aeth i fyw gyda ffotograffydd o'r enw Thomas Sims ar Stryd Newydd.

Yn y pen draw, daeth Thomas Sims yn frawd yng nghyfraith i Wallace, gan briodi ei chwaer iau, Frances, yn 1849.

5 Mynachlog Nedd

Sefydlwyd Mynachlog Nedd gan y marchog Syr Richard de Grenville yn 1130 ac erbyn y 13eg ganrif roedd yn un o fynachlogydd cyfoethocaf Cymru.

Roedd Mynachlog Nedd yn gartref i ryw 50 o fynachod gyda llawer mwy o staff yn gweithio ar ystâd ehangach y fynachlog yn trin yr anifeiliaid a'r cnydau.

Doedd dim dianc rhag y Chwyldro Diwydiannol fodd bynnag, ac erbyn y 1730au roedd y fynachlog wedi dod yn waith mwyndoddi copr gyda ffwrneisi, gweithdai a thai gweithwyr. Cliriwyd y gweddillion diwydiannol ar ddechrau'r 20fed ganrif ac mae'r adfeilion yn dal i gael eu hystyried ymhlith olion mynachaid mwyaf trawiadol De Cymru.



MANNAU DIDDOROL

6 Gwaith Haearn Mynachlog Nedd

Samuel Osgood luniodd fap 1830 o ystâd Mynachlog Nedd ac yna yn 1832 fap ar ardal ehangach Castell-nedd. Bu hefyd yn gweithio i Joseph Tregelles Price, Rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd.

Byddai'r tramffyrdd yn mynd heibio i annedd Wallace i Waith Haearn Mynachlog Nedd, lle cafodd brawd iau Wallace, John, ei gyflogi ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach.

Roedd y bwthyn y symudodd Wallace a'i frawd iddo yn elfennol a dweud y lleiaf ac, er siom iddynt, roedd yn llawn llau gwely. Cafodd hyn ei ddatrys yn fuan gan frawd Wallace, William, oedd yn benderfynol waredu'r llau gebyst hyn o'r tŷ. Bu Wallace a'i frawd yn lletya gyda Samuel Osgood tan 1843. Gan ei fod yn methu cael digon o waith, gadawodd Wallace Gastell-nedd i chwilio am waith yn Llundain cyn cael swydd addysgu yng Nghaerlŷr. Yng Nghaerlŷr, cwrddodd Wallace â Henry Walter Bates, cyd-naturiolwr amatur, a fyddai'n dod yn ffrind mawr, yn gydweithiwr ac yn ddylanwad ar ddiddordeb gwyddonol Wallace.

7 Camlesi Nedd a Thenant

Pan oedd yn byw ym Mwthyn Llanilltud, daeth brawd Wallace, John, yn benderfynol o adeiladu cwch bach iddynt gael mynediad i Abertawe trwy Gamlesi Nedd a Thenant. Saer Coed oedd John wrth ei grefft ac adeiladodd gwch bach, oedd yn ddigon ysgafn i'w gario, a allai ddal dau neu dri pherson. Un diwrnod, perswadiodd Wallace a'i frawd eu mam i deithio i Abertawe gyda nhw yn y cwch. Traed gwlyb oedd y canlyniad a gwrthododd eu mam fynd ar ragor o deithiau mewn cwch gyda'r brodyr.

8 Eglwys Illtud Sant

Mae hen Eglwys Gymreig Llan Illtud, a elwir hefyd yn Eglwys Llanilltud neu Eglwys Illtud Sant ar lan chwith afon Nedd. Adeiladwyd yr eglwys wreiddiol gan Illtud Sant, Sant Cymreig cynnar a chyn-farchog a oedd yn un o athrawon y Seintiau Celtaidd yn y cyfnod cyn-Normanaid. Yn nes ymlaen, ailadeiladwyd yr eglwys, a adeiladwyd yn wreiddiol o bren, â cherrig yn ystod y cyfnod Normanaid.



6